**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-833
Ein cyf/Our ref KS/03569/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

5 Chwefror 2019

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr ynglŷn â Deiseb P-05-833 – Gwella gwasanaethau rheilffordd i Gas-gwent, lle'r oeddech yn gofyn am ragor o fanylion am faint o gerbydau sydd ar gael, ac am sicrwydd bod Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn mynd ati mewn pob ffordd bosibl i sicrhau rhagor o gerbydau.

Bydd maint y fflyd a fydd ar gael yn parhau'n her am weddill y flwyddyn i'r tîm sy'n gyfrifol am y fflyd. Fel y gwelwyd yn ystod yr hydref, crëwyd problemau yn y tymor byr gan ddifrod a wnaed oherwydd nad oedd olwynion yn cydio'n ddigon tynn yn y traciau, ond adferwyd y sefyllfa honno erbyn hyn. Yr hydref nesaf, dylai addasiadau fel systemau i atal olwynion rhag llithro helpu i atal difrod o'r fath.

Mae nifer y cerbydau sydd ar gael o ddydd i ddydd yn fater o gadw'r ddysgl yn wastad rhwng gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw (archwilio a newid cydrannau er mwyn atal unrhyw broblemau posibl), y gwaith y mae ei angen ei wneud ar unedau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl sydd ag anawsterau wrth symud (mae'n rhaid gwneud y gwaith hwn cyn mis Rhagfyr), a'r ffaith eu bod yn anodd rhagweld namau a all ddatblygu ar drenau a adeiladwyd yn y 1980au. Mae Trafnidiaeth Cymru yn buddsoddi £40 miliwn yn ein fflyd bresennol, gan gynnwys gosod systemau i atal olwynion rhag llithro fel y bo'n trenau'n gallu ymdopi'n well â thywydd eithafol.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyflwyno 84 o gerbydau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, gan gynnwys 5 uned Dosbarth 153 ychwanegol, 5 uned Dosbarth 769 a 5 uned Dosbarth 230, a bwriedir iddynt i gyd ddechrau gweithio yn ystod misoedd Ebrill/Mai. Yn ogystal, bydd 12 uned Dosbarth 170 a 12 o gerbydau Math IV yn dechrau gweithio erbyn diwedd y flwyddyn. Mae llawer o weithredwyr ar draws y wlad yn aros am drenau newydd ar hyn o bryd, felly maent yn gyndyn o ryddhau'r unedau sydd ganddynt ar hyn o bryd rhag ofn y bydd oedi. Ond er mwyn sicrhau bod rhagor o gerbydau ar gael cyn i'r fflyd newydd gyrraedd, mae Trafnidiaeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn trafod trefniadau masnachol ar gyfer hyd at 32 o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gerbydau ychwanegol (ar ben yr 84) ac mae'n gobeithio cyhoeddi canlyniadau'r trafodaethau hynny cyn bo hir.

Wrth lunio'r contract ar gyfer gwasanaethau rheilffordd, gwnaed hynny mewn ffordd a fyddai'n caniatáu iddo gael ei newid er mwyn adlewyrchu'r ffaith y byddai gwasanaethau'n tyfu dros amser. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn cydweithio â'u cydweithwyr mewn awdurdodau lleol i nodi lle mae'r cyfleoedd hynny i dyfu a sut y gellir sicrhau twf drwy gyfuno'r gwaith hwnnw â buddsoddiad mewn trafnidiaeth yn lleol ac yn rhanbarthol.

Yn gywir,

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport